# DATGANIAD O'R RHESYMAU

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru derfyn cyflymder cenedlaethol safonol o 20mya ar gyfer ffyrdd preswyl a ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru erbyn 17 Medi 2023. Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai terfynau 20mya yn cael eu hadolygu. Lansiwyd ymarfer ‘gwrando’ cenedlaethol fel rhan o’r adolygiad pan wahoddwyd aelodau’r cyhoedd i rannu eu safbwyntiau ag awdurdodau lleol am y ffyrdd penodol ble dylid newid y terfyn cyflymder o 20mya yn ôl i 30mya.

Fel rhan o “gyfnod gwrando” yr adolygiad 20mya, cafodd Cyngor Conwy dros 700 o geisiadau unigol. Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar Osod Terfynau Cyflymder 30mya gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024, ynghyd ag adnodd asesu i helpu awdurdodau lleol ddefnyddio’r canllawiau. Roedd yn ofynnol i awdurdodau adolygu’r ceisiadau am newidiadau i’r terfyn cyflymder drwy ddefnyddio’r canllawiau a’r adnodd asesu.

Mae Cyngor Conwy wedi cynnal asesiadau manwl ar bob un o’r 18 rhan o ffyrdd a gynigir yn y Gorchymyn hwn. Defnyddiwyd adnodd asesu Llywodraeth Cymru fel fframwaith ar gyfer ystyried y dystiolaeth ar ddiogelwch y ffyrdd, cyflymder y traffig, faint o draffig a’i gyfansoddiad i ddefnyddio’u crebwyll i sicrhau bod terfynau cyflymder yn cael eu gosod mewn ffordd sy’n hyrwyddo diogelwch, effeithlonrwydd a lles cymunedau. Mae newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder wedi cael eu hystyried er mwyn cynnwys y dyletswyddau a swyddogaethau statudol ehangach.

Y meini prawf a ddefnyddiwyd i gynnal yr asesiadau yw

- Lle

Mae’r meini prawf ‘Lle’ yn nodi: “Ni fyddai 30mya yn briodol ar rannau o ffyrdd sy’n cael eu defnyddio’n sylweddol ar gyfer cerdded, powlio a beicio” e.e. lleoliadau addysg, eiddo preswyl / manwerthu, cyfleusterau cymunedol / meddygol, a ble mae dwyster y boblogaeth yn fwy na 20 eiddo i bob cilomedr sy’n wynebu’r ffordd.

Cafodd pob ffordd y gofynnwyd amdanynt, a oedd wedi newid i 20mya o 30mya cyn hynny, eu hasesu’n defnyddio’r meini prawf hyn. Pan oedd yr amodau lleol yn golygu bod ffyrdd yn methu â bodloni’r meini prawf ar gyfer terfyn cyflymder 30mya, nid oedd angen asesiad pellach.

- Symudiad

Mae’r meini prawf ‘Symudiad’ yn nodi y gellid defnyddio 30mya ar

a. ffyrdd strategol, megis y rhai ar gyfer cludo nwyddau neu goridorau bysiau pwysig,

b. ffyrdd bychain mewn ardaloedd diwydiannol â llai o gerddwyr neu feicwyr, neu ardaloedd sy’n cael eu hamgylchynu gan dir agored

Mae gan yr Awdurdod ddyletswyddau statudol dan adran 16 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 2004 i geisio sicrhau bod y traffig yn symud mor hwylus ag sy’n ymarferol bosibl, a’i ddyletswydd o dan adran 122 Deddf Rheoli Traffig 1984 i geisio sicrhau bod cerbydau a thraffig eraill yn symud yn hwylus, yn gyfleus ac yn ddiogel, yn cynnwys cerddwyr, cyn belled ag sy’n ymarferol gan ystyried y materion a nodir yn adran 122(2). Mae wedi ystyried meini prawf amrywiol, yn cynnwys lle, symudiad a nodweddion ffyrdd fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru.

Ymgynghorodd Cyngor Conwy â Gweithredwyr Cludiant Cyhoeddus ac mae wedi cael data am nifer a chyfansoddiad y traffig sy’n defnyddio pob ffordd dan sylw.

- Nodweddion Ffyrdd

Mae Cyngor Conwy wedi asesu ‘nodweddion ffyrdd’ yn y rhannau o ffyrdd sy’n cael eu hadolygu drwy ystyried:

a. Darpariaeth Teithio Llesol ar hyd y ffordd a mannau diogel i gerddwyr a beicwyr groesi
b. Faint o alw sydd gan gerddwyr a beicwyr i groesi’r ffordd (e.e. pan fo datblygiadau ar un ochr yn unig)
c. pan fo’r ffordd wedi ei dylunio er mwyn sicrhau bod geometreg a nodweddion priffyrdd yn cefnogi cyflymder diogel uwch o 30mya
d. pan fo’r ffordd mewn ardal wledig gyda llai o ddatblygiadau’n wynebu’r briffordd yn uniongyrchol

Cynhaliwyd yr asesiadau ar y safleoedd a chan ddefnyddio adnodd mapio Teithio Llesol MapData Cymru.

- Diogelwch y Ffyrdd

Mae Cyngor Conwy wedi asesu ‘diogelwch y ffyrdd’ pob rhan o’r ffordd drwy gymharu data damweiniau traffig a gofnodwyd gan yr Heddlu (STATS19) am dair blynedd cyn rhoi’r polisi 20mya ar waith a data STAT19 arfaethedig am y ddwy flynedd wedyn. Cyfrifwyd y gyfradd ddamweiniau flynyddol er mwyn cymharu, a ble cafodd 1 unigolyn yn llai ei anafu bob blwyddyn, mae argymhelliad i gadw’r 20mya wedi’i wneud.

Roedd asesiadau hefyd yn cynnwys ysgrifennu i gyfeiriadau fyddai’n cael eu heffeithio’n uniongyrchol gan y newid arfaethedig i’r terfyn cyflymder.

Mae’r ffyrdd a enwir yn y Gorchymyn hwn wedi cael eu nodi fel rhai sy’n bodloni’r gofynion (drwy’r broses asesu a amlinellir uchod gan ystyried y canllawiau diwygiedig a dyletswyddau statudol yr Awdurdod) i’w newid yn ôl i derfyn cyflymder o 30mya. Casglodd y broses asesu bod y buddion posibl yn drech na’r gwrth-fuddion posibl o godi’r terfyn cyflymder.

Diben y Gorchymyn hwn yw galluogi’r Cyngor i gwblhau’r broses adolygu a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a rhoi’r newidiadau ar waith i derfynau cyflymder ar ffyrdd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.